OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 4

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

### PENNOD 2

### CYMHWYSTRA

*ADRAN 4*

*Astudio blaenorol*

**Cyfyngiad pellach ar gymorth i fyfyrwyr rhan-amser**

**27.**—(1) Nid yw myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs rhan-amser yn cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn ac eithrio grant myfyriwr anabl os yw'r myfyriwr—

(a) wedi ymgymryd ag un neu ragor o gyrsiau rhan-amser am gyfnod cyfanredol o—

(i) 8 mlynedd academaidd o leiaf (pan ddechreuodd y cwrs hwnnw neu'r cwrs cynharaf o'r cyrsiau hynny cyn 1 Medi 2014), neu

(ii) 16 o flynyddoedd academaidd o leiaf (pan ddechreuodd y cwrs hwnnw neu'r cwrs cynharaf o'r cyrsiau hynny ar neu ar ôl 1 Medi 2014), a

(b) wedi cael cymorth perthnasol mewn cysylltiad ag o leiaf 8 neu, yn ôl y digwydd, 16 o'r blynyddoedd academaidd hynny o'r cwrs rhan-amser neu'r cyrsiau rhan-amser.

(2) Ym mharagraff (1)(b), ystyr "cymorth perthnasol" yw—

(a) benthyciad, grant mewn cysylltiad â ffioedd neu grant at lyfrau, teithio a gwariant arall a wneir mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd—

(i) o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998, neu

(ii) o dan reoliadau a wneir o dan Erthyglau 3 ac 8(4) o Orchymyn Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998(**1**);

(b) benthyciad a wneir mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o dan reoliadau a wneir o dan adrannau 73(f), 73B a 74(1) o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980(**2**).

(**1**) O.S. 1998/1760 (G.I. 14), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) 1980 p. 44; mewnosodwyd adran 73B gan adran 29(2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg (Gwaddol Graddedigion a Chymorth i Fyfyrwyr) (Yr Alban) 2001 (dsa 6), Atodlen 6 i Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), adran 34(1) o Ddeddf Methdaliad a Diwydrwydd etc. (Yr Alban) 2007 (dsa 3) ac Atodlen 8 i Ddeddf Methdaliad (Yr Alban) 2016 (dsa 21).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 27 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 12/03/2018.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.